# Adeiladu Teimlad o Berthyn Rôl Hanfodol Cymorth gan Gyfoedion wrth Wella Dargadwedd Myfyrwyr a Throsglwyddo i'r Brifysgol

Carly Jones, Rheolwr Sgiliau Astudio Academaidd a Mentora, Bywyd Myfyrwyr, Prifysgol Caerdydd

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cynllun Mentora Myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2012 gyda'r nod o gynnig cefnogaeth i bob myfyriwr israddedig ar eu blwyddyn gyntaf wrth iddynt symud i'r brifysgol.

Mae mentoriaid myfyrwyr yn helpu myfyrwyr ar eu blwyddyn gyntaf trwy gynnig cyngor diduedd a chyfoes yn seiliedig ar brofiadau a rennir, ac mae ganddyn nhw'r wybodaeth i gyfeirio myfyrwyr newydd at lawer o'r gwasanaethau cymorth a gynigir gan y Brifysgol. Gall pob myfyriwr blwyddyn gyntaf gysylltu â mentor myfyrwyr o'r un ysgol academaidd, a bydd eu mentor yn cysylltu â nhw cyn iddynt gyrraedd y brifysgol. Mae hyn yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt cyn iddyn nhw gyrraedd ac yn eu helpu i deimlo'n gyfarwydd â chyfoedion eraill, gan leddfu unrhyw deimladau o bryder o bosibl.

## Y cynllun mentora myfyrwyr

Mae pob mentor myfyrwyr yn gyfrifol am grŵp o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf (sef y rhai a gaiff eu mentora), er mwyn annog datblygu cysylltiadau cymdeithasol ar lefel cwrs. Mae mentoriaid myfyrwyr yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda'u grŵp o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf a rhoi cyngor ymarferol iddynt ar faterion anacademaidd fel tai, cyllidebu a rheoli amser. Yn ogystal, bydd mentoriaid myfyrwyr yn tywys y myfyrwyr hynny maent yn gyfrifol amdanynt o gwmpas i'w cynorthwyo i lywio eu hamgylchedd newydd a'u helpu i ymgyfarwyddo â mannau academaidd a chymdeithasol. Anogir mentoriaid i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y rhai maen nhw'n eu mentora, gan y bydd eu cynnwys yn weithredol yn y broses yn arwain at ddatblygu perthynas well â'u mentor, a byddant yn fwy tebygol o barhau i fynychu sesiynau mentora.

Yn dilyn pob sesiwn fentora, mae'n ofynnol i fentoriaid gyflwyno adroddiad byr yn manylu ar y pynciau a drafodwyd yn ystod y sesiwn, yn ogystal ag enwau'r myfyrwyr hynny a fynychodd. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r Tîm Mentora Myfyrwyr olrhain ymgysylltiad myfyrwyr â'u mentoriaid. Os nad yw myfyrwyr wedi cysylltu â'u mentor o fewn ychydig wythnosau cyntaf y semester, bydd y Tîm Mentora Myfyrwyr yn cysylltu â nhw'n rhagweithiol i gynnig cefnogaeth. Mae mentoriaid sy'n cynnal o leiaf bedair sesiwn ar gyfer myfyrwyr newydd yn derbyn tystysgrif gan y Brifysgol i gydnabod eu gwasanaeth.






Mae ein tystiolaeth yn dangos y gall cefnogaeth gan gymheiriaid ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng unigolion, creu ymdeimlad o berthyn a lleihau'r potensial i adael eu cwrs yn gynnar. Yn ôl Lizzio a Wilson (2010) mae datblygu cysylltiadau â myfyrwyr a staff yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Yn 2024-25, dywedodd 63% o fyfyrwyr fod cael mentor myfyrwyr wedi eu helpu i ymgartrefu a theimlo'n rhan o Brifysgol Caerdydd.

Gall mentoriaid myfyrwyr gynorthwyo ag integreiddio academaidd a chymdeithasol (Tinto, 1993) a ddangosir gan yr adborth canlynol gan y rhai sydd wedi cael eu mentora, “I rai myfyrwyr, gall integreiddio i fywyd prifysgol fod yn brofiad heriol.” Mae perthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion yn meithrin ymdeimlad o berthyn, sy'n cynorthwyo â dargadwedd myfyrwyr a throsglwyddiad llyfnach i'r brifysgol. Mae pob myfyriwr blwyddyn gyntaf yn cael profiad unigryw, ac mae'r cynllun cymorth cyfoedion hwn yn cynnig cyfle iddyn nhw rannu eu stori. Mae'n helpu myfyrwyr i feithrin cysylltiadau, magu hyder, ac yn eu paratoi ar gyfer llwyddiant academaidd a thwf personol yn y brifysgol.

**Effaith**

Dywedodd un o’n mentoriaid myfyrwyr: “Y peth rwyf falchaf ohono yw’r dylanwad a gefais ar fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gan wneud iddyn nhw deimlo’n fwy cyfforddus a diogel yn ystod eu hamser yn y brifysgol. Gall dechrau yn y brifysgol fod yn brofiad eithaf brawychus, felly roeddwn i'n gwerthfawrogi bod yno i helpu, boed hynny trwy eu helpu gyda'u gwaith cwrs, rhoi cyngor defnyddiol iddyn nhw, neu ddim ond bod yn glust i wrando” (mentor myfyrwyr, 2025).

‘Teimlais fy mod wedi cael effaith go iawn pan welais fyfyrwyr yn dod yn fwy hunangynhaliol, yn ymwneud â’u haddysg, a hyd yn oed yn barod i ofyn am gymorth pan oedd angen. Rhoddodd foddhad mawr i mi wybod bod fy ngwaith wedi eu helpu i lwyddo a hwyluso eu trosglwyddiad i'r brifysgol.’
Mentor myfyrwyr, 2025

‘Mae bod â mentor myfyrwyr yn ddefnyddiol iawn, gan y gall mynd i’r brifysgol am y tro cyntaf fod yn brofiad brawychus, a gall fod yn anodd llywio o gwmpas y brifysgol a dod i arfer â’r lle. Mae fy mentor myfyrwyr wedi fy helpu i ymgartrefu a rhoi cefnogaeth a chyngor i mi pan oedd angen.’
Myfyriwr a fentorwyd, 2025

> Diolch yn fawr iawn am gynnal y cynllun hwn! Mae wedi bod yn amhrisiadwy, dim ond gofyn y cwestiynau 'gwirion' hynny na fyddwn i efallai wedi'u gofyn fel arall. Allwn i ddim argymell yn fwy i unrhyw fyfyrwyr newydd ymwneud â'r cynllun.
> Myfyriwr a fentorwyd, 2025

> Mae wir wedi fy helpu i ymgartrefu ym mywyd y brifysgol. Roedd y ffordd newydd o fyw/astudio yn llethol ar y dechrau, ac mae'r cynllun mentora wedi ei gwneud hi'n llawer haws. Mae wedi galluogi fy ngwaith i fod cystal ag y gall fod.
> Myfyriwr a fentorwyd, 2024

Yn 2024-25, roedd 104 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf wedi ystyried gadael eu cyrsiau, a dywedodd 31% o'r rheiny fod cael mentor myfyrwyr wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i aros. Rhwng 2016 a 2025, ystyriodd cyfanswm o 866 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf adael eu cwrs, ond dywedodd 64% o'r rheiny fod cael mentor myfyrwyr wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i aros.

Mae adborth gan fentoriaid a'r rhai a fentorwyd yn tynnu sylw ymhellach at effaith gadarnhaol bod â mentor myfyrwyr.

Ers ei sefydlu, rydym wedi hyfforddi dros 6,000 o fyfyrwyr israddedig profiadol i fod yn fentoriaid myfyrwyr ac i ddarparu cefnogaeth academaidd ac anacademaidd i gyfanswm o dros 50,000 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf.

**Cyfeirnodau**


Lizzio, A. & Wilson, K. (2010) *Strengthening commencing students' sense of purpose: Integrating theory and practice.* Yn y 13eg Gynhadledd Blwyddyn Gyntaf mewn Addysg Uwch ardal Ffiniau'r Môr Tawel. Adelaide, Awstralia: Prifysgol Griffith.

Tinto, V. (1993) *Leaving college: Rethinking the causes and cures of student attrition (2nd ed.) Chicago, IL:* Gwasg Prifysgol Chicago.



Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research